

# VISITORS GUIDE

# WELCOME TO SKANDA VALE HOSPICE!

**When you arrive at Skanda Vale Hospice, you might notice that it doesn't feel the same at every moment of the day.**

Sometimes it's quiet and settled. At other times—especially on a day hospice morning—it can be busy and lively, with people arriving together, conversations starting up, and plenty of laughter.

What stays the same is the way people are with one another. Things are done without rush, with attention and care — whether the place is calm or full of activity.

This guide is here to help you understand what to expect during your visit, and how we can, together, maintain an environment where genuine care is possible. What follows isn't simply a list of rules. It's about protecting the conditions that allow people to be themselves, not just their diagnosis.

Whether you're visiting a patient, arriving in a professional capacity, bringing music or activity, or joining us for any other reason, these guidelines apply to everyone who enters the hospice. What happens here depends on the atmosphere we create together.

# CROESO I SKANDA VALE HOSPICE!

**Pan fyddwch yn cyrraedd Skanda Vale Hospice, efallai y byddwch yn sylwi nad yw'n teimlo'r un fath ar bob adeg o'r dydd.**

Weithiau mae'n dawel ac yn sefydlog. Ar adegau eraill — yn enwedig ar fore Hosbis Dydd — gall fod yn brysur ac yn fywiog, gyda phobl yn cyrraedd gyda'i gilydd, sgyrsiau'n dechrau, a digon o chwerthin.

Yr hyn sy'n aros yr un fath yw'r ffordd y mae pobl yn ymwneud â'i gilydd. Mae pethau'n cael eu gwneud heb frys, gyda sylw a gofal — boed y lle'n dawel neu'n llawn gweithgarwch.

Mae'r canllaw hwn yma i'ch helpu i ddeall beth i'w ddisgwyl yn ystod eich ymweliad, a sut y gallwn ni, gyda'n gilydd, gynnal amgylchedd lle mae gofal go iawn yn bosibl. Nid rhestr o reolau yn unig yw'r hyn sy'n dilyn. Mae'n ymwneud â diogelu'r amodau sy'n caniatáu i bobl fod yn nhw eu hunain, nid yn unig eu diagnosis.

P'un a ydych yn ymweld â chlaf, yn cyrraedd mewn swydd broffesiynol, yn dod â cherddoriaeth neu weithgaredd, neu'n ymweld am unrhyw reswm arall, mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bawb sy'n dod i mewn i Skanda Vale Hospice. Mae'r hyn sy'n digwydd yma yn dibynnu ar yr awyrgylch rydym yn ei greu gyda'n gilydd.

## FINDING YOUR WAY

When you arrive, we'll ask you to sign the visitors' book. This helps us know who's on site and keep everyone safe, especially in an emergency.

If you're unsure where to go or need help finding a room or facility, any team member will be happy to help. Some areas of the hospice are reserved for patient care and team use only. These boundaries matter — they protect privacy and allow care to take place without interruption.

## PRACTICAL MATTERS

Parking and access: Parking is available on site. Please park considerately, keeping access clear for emergency vehicles, fire assembly points, and those with mobility needs. In a hospice, these aren't abstract concerns but real needs that can arise without warning. If you need accessible parking or additional support when you arrive, let a team member know.

Personal belongings and space: Space around beds and in shared areas can be limited. We recommend keeping belongings to a minimum and keeping valuables with you. Clear spaces help maintain both safety and comfort for everyone.

Shared spaces: You're welcome to use designated refreshment areas, family rooms, and quiet spaces. These spaces serve many purposes throughout the day — a place to gather, to pause, or simply to catch your breath. Leaving them tidy helps ensure they remain welcoming for whoever needs them next.

## DOD O HYD I'CH FFORDD

Pan fyddwch yn cyrraedd, gofynnir i chi lofnodi'r llyfr ymwelwyr. Mae hyn yn ein helpu i wybod pwy sydd ar y safle ac i gadw pawb yn ddiogel, yn enwedig mewn argyfwng.

Os nad ydych yn siŵr ble i fynd neu os oes angen help arnoch i ddod o hyd i ystafell neu gyfleuster, bydd unrhyw aelod o'r tîm yn hapus i helpu. Mae rhai rhannau o Skanda Vale Hospice wedi'u cadw ar gyfer gofal cleifion a defnydd y tîm yn unig. Mae'r ffiniau hyn yn bwysig — maent yn diogelu preifatrwydd ac yn caniatáu i ofal ddigwydd heb ymyrraeth.

## MATERION YMARFEROL

Parcio a mynediad: Mae parcio ar gael ar y safle. Gofynnwn i chi barcio'n ystyriol, gan gadw mynediad yn glir ar gyfer cerbydau brys, mannau ymgynnull tân, a'r rhai ag anghenion symudedd. Mewn hosbis, nid materion damcaniaethol yw'r rhain ond anghenion gwirioneddol a all godi heb rybudd. Os oes angen parcio hygyrch neu gymorth ychwanegol arnoch wrth gyrraedd, rhowch wybod i aelod o'r tîm.

Eiddo personol a gofod: Gall y gofod o amgylch gwelyau ac mewn ardaloedd a rennir fod yn gyfyngedig. Rydym yn argymell cadw eiddo i'r lleiafswm a chadw pethau gwerthfawr gyda chi. Mae mannau clir yn helpu i gynnal diogelwch a chysur i bawb.

Mannau a rennir: Mae croeso i chi ddefnyddio ardaloedd lluniaeth penodedig, ystafelloedd teulu a mannau tawel. Mae'r mannau hyn yn gwasanaethu sawl pwrpas drwy'r dydd — man i ymgynnull, i oedi, neu'n syml i gymryd anadl. Mae eu gadael yn daclus yn helpu i sicrhau eu bod yn parhau'n groesawgar i'r sawl sydd eu hangen nesaf.

**Mobile phones and devices:** Phones and electronic devices may be used, but please keep them on silent and use them discreetly. Sounds and distractions can cause discomfort and distress here, particularly near patient rooms.

**Smoking, vaping, and alcohol:** Smoking and vaping are only permitted in the designated area – (a special nook / shelter, near the pond in the garden). Alcohol should not be brought onto the premises unless this has been discussed and agreed in advance. If you're unsure, please ask a team member.

**Toilets and accessibility:** Accessible toilets and facilities are available throughout the building. If you need assistance or can't find what you're looking for, a team member will be glad to help.

**Pets and assistance animals:** We understand that pets can be an important source of comfort and reassurance. Visits involving pets or assistance animals should be discussed in advance so we can make sure they're appropriate and comfortable for patients and others.

**Longer or overnight visits:** In some circumstances, longer or overnight visits may be possible. A team member will talk through what accommodation and support is available, and any arrangements that need to be considered.

## MAINTAINING A CALM & SUPPORTIVE ENVIRONMENT

A supportive atmosphere is central to everything we do here. At times that means quiet — space for rest, treatment, or private moments. At other times it means conversation, shared activity, and laughter. For many people, that social side of the day is just as important.

**Ffonau symudol a dyfeisiau:** Gellir defnyddio ffonau a dyfeisiau electronig, ond gofynnwn iddynt fod ar fud a'u defnyddio'n ddisylw. Gall synau a thynnu sylw achosi anghysur a gofid yma, yn enwedig ger ystafelloedd cleifion.

**Ysmygu, fepio ac alcohol:** Caniateir ysmygu a fepio yn unig yn yr ardal ddynodedig — cilfach neu loches fach dan gysgod, ger y pwll yn yr ardd. Ni ddylid dod ag alcohol i'r safle oni bai bod hyn wedi'i drafod a'i gytuno ymlaen llaw. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i aelod o'r tîm.

**Toiledau a hygyrchedd:** Mae toiledau a chyfleusterau hygyrch ar gael drwy'r adeilad. Os oes angen help arnoch neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn chwilio amdano, bydd aelod o'r tîm yn falch o helpu.

**Anifeiliaid anwes ac anifeiliaid cymorth:** Rydym yn deall y gall anifeiliaid anwes fod yn ffynhonnell bwysig o gysur a thawelwch meddwl. Dylid trafod ymweliadau sy'n cynnwys anifeiliaid anwes neu anifeiliaid cymorth ymlaen llaw fel y gallwn sicrhau eu bod yn briodol ac yn gyfforddus i gleifion ac eraill.

**Ymweliadau hirach neu dros nos:** Mewn rhai amgylchiadau, gall ymweliadau hirach neu dros nos fod yn bosibl. Bydd aelod o'r tîm yn trafod pa lety a chymorth sydd ar gael, ac unrhyw drefniadau y mae angen eu hystyried.

## CYNNAL AMGYLCHEDD TAWEL A CHEFNOGOL

Mae awyrgylch cefnogol yn ganolog i bopeth a wnawn yma. Weithiau mae hynny'n golygu tawelwch — lle i orffwys, triniaeth, neu eiliadau preifat. Ar adegau eraill, mae'n golygu sgwrs, gweithgaredd a rennir, a chwerthin. I lawer o bobl, mae'r ochr gym-

You might notice busy moments around the day hospice, a lively art session, or people chatting over tea. These moments of connection can be deeply supportive in their own way.

We ask everyone to stay aware of what's going on around them — keeping noise down near patient rooms, giving space when care is taking place, and being willing to adjust as the day changes.

Occasionally, visitors may be asked to adapt their behaviour or move to a different area. These requests are always made with patient dignity, wellbeing, and safety in mind, and we ask that they're respected.

## PRIVACY, DIGNITY & CONFIDENTIALITY

The hospice is a place where people may be living with serious illness, emotional distress, or approaching the end of life. Treating everyone you encounter with kindness, respect, and discretion is essential.

This means respecting personal space and confidentiality at all times. Anything you see or hear here — about patients, families, team members, or other visitors — should remain private.

deithasol hon i'r dydd yr un mor bwysig.

Efallai y byddwch yn sylwi ar adegau prysur o amgylch Hosbis Dydd, sesiwn gelf fywiog, neu bobl yn sgwrsio dros de. Gall yr eiliadau hyn o gysylltiad fod yn hynod gefnogol yn eu ffordd eu hunain.

Gofynnwn i bawb fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd o'u cwmpas — cadw sŵn i lawr ger ystafelloedd cleifion, rhoi lle pan fo gofal yn digwydd, a bod yn barod i addasu wrth i'r diwrnod newid.

O bryd i'w gilydd, efallai y gofynnir i ymwelwyr addasu eu hymddygiad neu symud i ardal wahanol. Gwneir y ceisiadau hyn bob amser gyda pharch at urddas, lles a diogelwch cleifion, a gofynnwn iddynt gael eu parchu.

## PREIFATRWYDD, URDDAS A CHYFRINACHEDD

Mae Skanda Vale Hospice yn fan lle gall pobl fod yn byw gyda salwch difrifol, trallod emosiynol, neu'n agosáu at ddiwedd oes. Mae trin pawb y byddwch yn eu cyfarfod â charedigrwydd, parch a disgresiwn yn hanfodol.

Mae hyn yn golygu parchu gofod personol a chyfrinachedd bob amser. Dylai unrhyw beth a welwch neu a glywch yma — am gleifion, teuluoedd, aelodau'r tîm neu ymwelwyr eraill — aros yn breifat.

## PHOTOGRAPHY, FILMING & RECORDING

Photography, filming, and audio recording are not permitted unless clear permission has been given by everyone involved and the activity has been agreed in advance with the hospice. This applies to casual phone photos as well as professional media work.

Care here often happens at very sensitive moments. Even an unintended glimpse in the background of a photograph can intrude on someone's privacy. We're careful about this because trust matters.

## HEALTH, SAFETY & WELLBEING

Hand hygiene matters more here than in most places. For someone living with a life-limiting illness, a simple infection can mean weeks of feeling worse, time lost to symptoms that could have been avoided. Please use hand sanitiser when entering and leaving patient areas, and follow any infection prevention guidance provided.

If you're feeling unwell or experiencing symptoms of an infectious illness, we kindly ask that you postpone your visit where possible.

Please also follow signage relating to fire safety, restricted areas, and any additional safety measures that may be in place. Team members are always available to explain what's needed and why.

## TYNNU LLUNIAU, FFILMIO A RECORDIO

Ni chaniateir tynnu lluniau, ffilmio na recordio sain oni bai bod caniatâd clir wedi'i roi gan bawb dan sylw a bod y gweithgaredd wedi'i gytuno ymlaen llaw gyda Skanda Vale Hospice. Mae hyn yn berthnasol i luniau achlysurol ar ffôn yn ogystal â gwaith cyfryngau proffesiynol.

Mae gofal yma'n aml yn digwydd ar adegau sensitif iawn. Gall hyd yn oed cipolwg anfwriadol yng nghefn llun ymyrryd â phreifatrwydd rhywun. Rydym yn ofalus ynghylch hyn oherwydd bod ymddiriedaeth yn bwysig.

## IECHYD, DIOGELWCH A LLES

Mae hylendid dwylo yn bwysicach yma nag mewn llawer o leoedd. I rywun sy'n byw gyda salwch sy'n cyfyngu ar fywyd, gall haint syml olygu wythnosau o deimlo'n waeth neu amser wedi'i golli i symptomau y gellid bod wedi'u hosgoi. Defnyddiwch hylif diheintio dwylo wrth fynd i mewn ac allan o ardaloedd cleifion, a dilynwch unrhyw ganllawiau atal heintiau a ddarperir.

Os ydych yn teimlo'n sâl neu'n profi symptomau salwch heintus, gofynnwn yn garedig i chi ohirio'ch ymweliad lle bo hynny'n bosibl.

Dilynwch hefyd unrhyw arwyddion sy'n ymwneud â diogelwch tân, ardaloedd cyfyngedig, neu fesurau diogelwch ychwanegol. Mae aelodau'r tîm bob amser ar gael i egluro beth sydd ei angen a pham.

## CHILDREN & YOUNG PEOPLE

Children and young people are welcome at the hospice when visits are appropriate, planned, and supported. Visiting someone who is seriously ill can be meaningful, but it also requires careful thought about a child's emotional wellbeing and understanding.

All children must be supervised by a responsible adult at all times. Some areas of the hospice may not be suitable for young visitors, and team members may offer guidance or suggest adjustments that better support everyone involved.

These conversations are about support, not restriction — helping families make choices that feel right for them, for the person they're visiting, and for the wider hospice community.

## PROFESSIONAL VISITORS & CONTRACTORS

If you're visiting in a professional or contractual capacity, you'll be asked to follow specific access, safeguarding, health and safety, and confidentiality arrangements. This includes signing in, wearing identification, and following guidance relevant to your role.

Your work should respect patient privacy and the calm environment that allows care to take place. In practice, this may mean adjusting when or how you work, or pausing activity when care is underway nearby.

## PLANT A PHOBL IFANC

Mae croeso i blant a phobl ifanc yn Skanda Vale Hospice pan fo ymweliadau'n briodol, wedi'u cynllunio, ac yn cael eu cefnogi. Gall ymweld â rhywun sy'n ddifrifol wael fod yn brofiad ystyrlon, ond mae hefyd yn gofyn am ystyriaeth ofalus o les emosiynol a dealltwriaeth plentyn.

Rhaid i bob plentyn gael ei oruchwylio gan oedolyn cyfrifol bob amser. Efallai na fydd rhai ardaloedd o'r hosbis yn addas i ymwelwyr ifanc, a gall aelodau'r tîm gynnig arweiniad neu awgrymu addasiadau sy'n cefnogi pawb yn well.

Mae'r sgyrsiau hyn yn ymwneud â chefnogaeth, nid cyfyngu — helpu teuluoedd i wneud dewisiadau sy'n teimlo'n iawn iddynt hwy, i'r person y maent yn ymweld ag ef, ac i gymuned ehangach yr hosbis.

## YMWELWYR PROFFESIYNOL A CHONTRACTWYR

Os ydych yn ymweld mewn swydd broffesiynol neu gontractiol, gofynnir i chi ddilyn trefniadau penodol ar gyfer mynediad, diogelu, iechyd a diogelwch, a chyfrinachedd. Mae hyn yn cynnwys llofnodi i mewn, gwisgo adnabod, a dilyn canllawiau sy'n berthnasol i'ch rôl.

Dylai eich gwaith barchu preifatrwydd cleifion a'r amgylchedd tawel sy'n caniatáu i ofal ddigwydd. Yn ymarferol, gall hyn olygu addasu pryd neu sut rydych yn gweithio, neu oedi gweithgaredd pan fo gofal yn digwydd gerllaw.

## STUDENTS, LEARNERS & RESEARCHERS

We welcome learning and development where this aligns with our values. All student placements, observational visits, and research activity must be approved in advance and carried out under appropriate supervision.

If you're here in a learning or research role, you're expected to respect confidentiality, consent, and professional boundaries at all times. Access to patients or sensitive information is only permitted where appropriate consent has been obtained and agreed by the hospice's Caldicott Guardian.

## MYFYRWYR, DYSGWYR AC YMCHWILWYR

Rydym yn croesawu dysgu a datblygu lle mae hyn yn cyd-fynd â'n gwerthoedd. Rhaid i bob lleoliad myfyrwyr, ymweliad arsylwi, a gweithgaredd ymchwil gael ei gymeradwyo ymlaen llaw a'i gynnal dan oruchwyliaeth briodol.

Os ydych yma mewn rôl ddysgu neu ymchwil, disgwylir i chi barchu cyfrinachedd, caniatâd a ffiniau proffesiynol bob amser. Caniateir mynediad at gleifion neu wybodaeth sensitif yn unig lle mae caniatâd priodol wedi'i gael a'i gytuno gan Warcheidwad Caldicott Skanda Vale Hospice.

## EVENTS, PERFORMERS & ACTIVITIES

Events and activities can bring comfort, connection, and moments of enjoyment. If you're visiting to perform or facilitate an activity, please remember that the hospice is first and foremost a place of care.

Sound levels, content, and movement should always be appropriate to this setting. Interaction with patients should only take place where this has been agreed in advance and is suitable for the individual concerned.

## DIGWYDDIADAU, PERFFORMWYR A GWEITHGAREDDAU

Gall digwyddiadau a gweithgareddau ddod â chysur, cysylltiad ac eiliadau o fwynhad. Os ydych yn ymweld i berfformio neu hwyluso gweithgaredd, cofiwch mai man gofal yw Skanda Vale Hospice yn anad dim.

Dylai lefelau sŵn, cynnwys a symudiad fod yn briodol i'r lleoliad hwn bob amser. Dim ond lle mae hyn wedi'i gytuno ymlaen llaw ac yn addas i'r unigolyn dan sylw y dylai rhyngweithio â chleifion ddigwydd.

## MEDIA & COMMUNICATIONS VISITORS

All media and communications visits must be arranged and approved in advance. Photography, filming, recording, or interviews may only take place with clear, informed consent and under agreed conditions.

Unauthorised or careless use of images or recordings can cause lasting harm. We take this seriously because the people here are trusting us at vulnerable moments in their lives.

## IF YOU NEED HELP

If at any point you're unsure about what's expected, need assistance, or have a concern, please speak to a team member. They're here to help.

These guidelines exist to protect what matters most: dignity, presence, and the possibility of genuine care. Thank you for helping us maintain it.

## YMWELWYR Y CYFRYNGAU A CHYFATHREBU

Rhaid trefnu a chymeradwyo pob ymweliad cyfryngau a chyfathrebu ymlaen llaw. Dim ond gyda chaniatâd clir, gwybodus ac o dan amodau cytunedig y gellir tynnu lluniau, ffilmio, recordio neu gynnal cyfweliadau.

Gall defnydd anawdurdodedig neu ddihid o ddelweddau neu recordiadau achosi niwed parhaol. Rydym yn cymryd hyn o ddifrif oherwydd bod y bobl yma yn ymddiried ynom ar adegau bregus yn eu bywydau.

## OS OES ANGEN HELP ARNOCH

Os ydych ar unrhyw adeg yn ansicr beth sy'n ddisgwyliedig, angen cymorth, neu os oes gennych bryder, siaradwch ag aelod o'r tîm. Maent yma i helpu.

Mae'r canllawiau hyn yn bodoli i ddiogelu'r hyn sy'n bwysicaf: urddas, presenoldeb, a'r posibilrwydd o ofal gwirioneddol. Diolch am helpu i'w gynnal.